**Grwp yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddu Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Medi 2022

Annwyl Gadeirydd

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar Fferm Gilestone y bûm i a chydweithwyr yn bresennol ynddi ar 14 Gorffennaf, cododd sawl mater yr oeddwn yn teimlo y dylid eich hysbysu yn eu cylch yn ysgrifenedig. Cafodd y camau hyn a nifer o gwestiynau ychwanegol eu hamlinellu gan y Pwyllgor yn eich llythyr ataf ar 8 Awst. Rwy'n mynd i'r afael â phob un o'r pwyntiau hyn isod.

Gofynnodd aelodau am gefnogaeth ariannol flaenorol i ŵyl y Dyn Gwyrdd a chwmnïau cysylltiedig. Cafodd rhai amcangyfrifon wedi’u talgrynnu eu darparu ond byddai'r Pwyllgor yn croesawu cadarnhad o ddadansoddiad llawn o gefnogaeth Llywodraeth Cymru dros y cyfnod a drafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gan gynnwys cyllid a allai fod wedi ei ddarparu gan Gyngor y Celfyddydau.

Rhwng 2010 a 2019, cafodd Green Man a'i gwmnïau cysylltiedig gymorth ariannol gwerth £921,000 gan Lywodraeth Cymru.

Dyma ddadansoddiad llawn y cyllid gan Lywodraeth Cymru:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

| **Rhaglen Ariannu** | **Blwyddyn Dyfarnu** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| Rhaglen Grantiau Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru | 2010 | £175,000 |
| Rhaglen Grantiau Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru | 2014 | £170,000 |
| Nawdd Masnachol Llywodraeth Cymru - cyllid yn gysylltiedig â BBC6 Music | 2015-2016 | £276,000 |
| Cymorth Nawdd Masnachol Llywodraeth Cymru | 2016 | £50,000 |
| Rhaglen Grantiau Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru | 2017 | £150,000 |
| Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth LlC | 2017-2019 | £100,000 |

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor ar 14 Gorffennaf, nodwyd bod Dyn Gwyrdd a'i gwmnïau cysylltiedig wedi cael cymorth ariannol gwerth cyfanswm o £1.081 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Roedd y ffigwr hwn yn cynnwys taliad o £160,000 a wnaed yn uniongyrchol i Stad Glanwysg ar gyfer gwaith seilwaith cyfalaf ar y safle ac ni chafodd ei wneud yn uniongyrchol i'r Dyn Gwyrdd.

Hefyd, derbyniodd Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'i changen elusennol, Ymddiriedolaeth y Dyn Gwyrdd, gyllid gwerth £526,111 o dan y Gronfa Adfer Diwylliannol fel rhan o'n pecyn ehangach o gymorth ariannol Covid-19 oedd ar gael i fusnesau yng Nghymru. O'r swm hwn, derbyniodd Gŵyl y Dyn Gwyrdd £481,000 yn uniongyrchol a derbyniodd Ymddiriedolaeth y Dyn Gwyrdd £45,111 trwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

<u>Gofynnodd aelodau hefyd am gefnogaeth Llywodraeth y DU i wyliau, gan gyfeirio at Glastonbury a Gwyliau Notting Hill yn arbennig. Gwnaethoch gynnig edrych i mewn i hyn a darparu rhagor o wybodaeth os yn bosib. Byddem yn gofyn i'ch ymateb wahaniaethu unrhyw gefnogaeth fel rhan o fesurau cymorth ehangach cysylltiedig â COVID o gymorth datblygu mwy cyffredinol</u>.

Er mwyn derbyn adroddiad llawn am gefnogaeth Llywodraeth y DU i wyliau, rwy'n credu y byddai angen i'r Pwyllgor fynd ati'n ffurfiol i gysylltu ag Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon y DU (DCMS).

Fodd bynnag, mae swyddogion wedi siarad â chyfoedion o fewn Llywodraeth y DU ac wedi derbyn yr wybodaeth ganlynol a allai fod o gymorth. Sylwer nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac yn syml mae'n ddarlun o'r mathau o gymorth a ddarperir i wyliau yn Lloegr, yn bennaf cyn y pandemig.

Cyllid Cyngor Celfyddydau Lloegr:

| **Teitl y Prosiect** | **Enw’r Ymgeisydd** | **Gŵyl Gysylltiedig** | **Swm** | **Blwyddyn** | **Math** |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr | Carnival Village Trust | Notting Hill Carnival | £407,360 | 2022/2023 | Grantiau ar gyfer y Celfyddydau/ Grantiau Prosiect |
| Capital Investment | Carnival Village Trust | Notting Hill Carnival | £ 245,000 | 2021/22 | Buddsoddiad Cyfalaf |
| Boomtown Chapter 11 | Boomtown Festival UK limited | Boomtown festival | £ 41,650 | 2018/19 | Grantiau ar gyfer y Celfyddydau/ Grantiau Prosiect |
| Boomtown Fair – Chapter 10 Narrative and the Immersive Maze | Boomtown Festival UK limited | Boomtown festival | £ 32,685 | 2018/19 | Grantiau ar gyfer y Celfyddydau/ Grantiau Prosiect |
| Glastonbury Commissions 2020 | Glastonbury Festivals | Glastonbury Festival | £ 14,950 | 2019/20 | Grantiau ar gyfer y Celfyddydau / Grantiau Prosiect |
| Glastonbury Commissions 2019 | Glastonbury Festivals | Glastonbury Festival | £ 14,500 | 2018/19 | Grants for the Arts/Project Grants |
| Notting Hill Carnival Pioneers Festival 2019 | Notting Hill Carnival Pioneers CIC | Notting Hill Carnival | £ 15,000 | 2019/20 | Grants for the Arts/Project Grants |

Mae'n ymddangos bod Gwobrau Cronfa Adfer Covid Llywodraeth y DU (CRF) wedi cynnwys y canlynol:

• Derbyniodd **Boomtown Festival UK Limited** grant o £991,864 yn CRF2 (cyhoeddwyd grantiau ym mis Mawrth/Ebrill 2021).

Derbyniodd **Glastonbury Festival Events Limited** grant o £900,000 yn CRF2, a grant pellach o £600,000 yn CRF3 (cyhoeddwyd grant ym mis Tachwedd 2021).

Derbyniodd **WOMAD Ltd** grant o £248,006 yn CRF1 a £217,336 yn CRF3.

• Derbyniodd **Carnival Village Trust** (yn ôl y deall chwaraeodd ran allweddol yn nhrefnu **Notting Hill Carnival**) grant o £250,000 yn CRF2.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at dystiolaeth o fuddion economaidd cysylltiedig â gŵyl y Dyn Gwyrdd. A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw ddiwydrwydd dyladwy ynghylch ffigyrau yn ymwneud â buddion economaidd yr ŵyl bresennol a/neu a fydd yn gwneud hynny fel rhan o'r arfarniad o'r cynllun busnes llawn ar gyfer Fferm Gilestone?

Cafodd y dystiolaeth a nodwyd am y budd economaidd sydd ynghlwm â'r ŵyl ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Dyn Gwyrdd yn dilyn gŵyl 2018. Roedd y data a ddyfynnwyd yn dod o gasgliadau adroddiad gwerthuso annibynnol a gomisiynwyd gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd ac a gynhaliwyd gan BOP Consulting, ymarfer ymchwil ac ymgynghori o statws rhyngwladol sy'n arbenigwyr ym maes diwylliant a'r economi greadigol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud dadansoddiad pellach ynghylch canfyddiadau'r adroddiad annibynnol hwn fel y cyfryw, gan fod y dystiolaeth yn yn ymwneud â Gŵyl y Dyn Gwyrdd ei hun bennaf ac nid y gweithgareddau ehangach sy'n cael eu cynnig ar gyfer Fferm Gilestone. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith diwydrwydd dyladwy cadarn o ran effaith economaidd bosibl y gweithgareddau arfaethedig yn Fferm Gilestone a chyllid strwythur grŵp y Dyn Gwyrdd a'i gwmnïau cysylltiedig. O ran hawliau chwaraeon, fe wnaethoch nodi yn eich tystiolaeth bod 'Hawliau o'r math yma yn berthnasol i lawer eiddo, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a thros ardaloedd helaeth o dir, ac rydym mewn trafodaethau gyda'r unigolyn, ac roedd hynny'n rhan o'r broses o brynu'r fferm'. Mae'r Pwyllgor wedi gweld copi o lythyr at y Prif Weinidog dyddiedig 8 Gorffennaf 2022, a'i bwrpas yn ôl pob golwg oedd sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r hawliau chwaraeon. Gellid dehongli o'ch tystiolaeth fod trafodaethau â pherchennog yr hawliau wedi'u cynnal fel rhan o'r broses brynu, ond byddai'r llythyr at y Prif Weinidog yn awgrymu fel arall. Fe fydden ni felly yn gofyn i chi egluro a oeddech chi'n cyfeirio at hawliau chwaraeon sydd wedi eu nodi yn ystod y broses brynu, yn hytrach na bod unrhyw drafodaethau gwirioneddol wedi digwydd bryd hynny gyda pherchennog yr hawliau.

Trwy'r ymarfer diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd cyn prynu Fferm Gilestone, cafodd swyddogion Llywodraeth Cymru wybod am fodolaeth hawliau pysgota a saethu a ddelid gan drydydd parti. Ni wnaed unrhyw gyswllt ar wahân gyda buddiolwr yr hawliau hynny cyn y caffaeliad gan nad oedd hyn yn rhan greiddiol o'r broses brynu. Fel rhan o ffurfio safle mewn egwyddor ar gynllun busnes terfynol y Dyn Gwyrdd, bydd asesiad yn cael ei wneud ar sut y gallai perchnogaeth trydydd parti o'r hawliau dan sylw effeithio ar y gweithgareddau arfaethedig. Yna bydd trafodaethau priodol gyda buddiolwr yr hawliau yn digwydd yn ôl yr angen.

Mae eich papur tystiolaeth yn awgrymu mai yn Chwefror 2022 y gwnaeth Green Man ddod â Fferm Gilestone i sylw Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mewn ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig blaenrol (WQ85337) am gyfarfodydd mewn perthynas â Fferm Gilestone, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at gyfarfod rhwng swyddogion ac aelodau Gŵyl y Dyn Gwyrdd/Plant Ltd ar 22 Hydref 2021. Byddem yn croesawu eglurhad o gynnwys y cyfarfod hwnnw ac a oedd Fferm Gilestone, mewn gwirionedd, eisoes yn cael ei drafod bryd hynny. Hoffem hefyd gadarnhau dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o sut y mae'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r Green Man wedi dod i wybod y byddai Fferm Gilestone o bosib ar gael cyn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn yn Chwefror 2022.

Roedd y cyfarfod ym mis Hydref 2021 i drafod opsiynau wedi i Lywodraeth Cymru fethu â dod o hyd i unrhyw safleoedd addas o fewn ei bas data tir i gefnogi cynlluniau y Dyn Gwyrdd. Yna fe wnaeth Green Man benodi asiant allanol i chwilio am safleoedd addas. Yn dilyn yr ymarfer hwn, gwnaeth Green Man swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r posibilrwydd y byddai Fferm Gilestone ar gael mewn galwad fideo ym mis Chwefror 2022.

Hefyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, holodd yr aelodau a oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o farchnata ymddangosiadol Fferm Gilestone ym mis Chwefror 2020 (dyddiwyd y deunyddiau marchnata a dderbyniodd y Pwyllgor fel y diweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2020). Roedd eich ymatebion yn dangos cred Llywodraeth Cymru nad oedd yr eiddo wedi bod ar y farchnad agored bryd hynny. Byddem yn croesawu unrhyw gadarnhad pellach o hyn o'ch deialog gyda'r perchennog blaenorol.

Fe wnaeth y perchennog blaenorol anfon e-bost at swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022 i ddatgan nad oedd yr eiddo wedi bod ar y farchnad agored ers iddo gael ei brynu ganddo, ac nad yw erioed wedi cael ei hysbysebu na'i hyrwyddo mewn unrhyw fforwm cyhoeddus.

Yn ôl y perchennog blaenorol, roedd ychydig o bobl wedi gwneud ymholiadau uniongyrchol ac felly cynhyrchwyd cyfres o fanylion sylfaenol ar gyfer postio uniongyrchol atynt fel a phryd y bo angen. Cynhyrchwyd y manylion hyn ddiwedd 2015 ac fe'u hanfonwyd i nifer fach iawn o bobl yn 2016.

Ers hynny, dim ond i un unigolyn a'u hasiant y mae'r manylion wedi cael eu hanfon yn gynnar yn 2020. Anfonwyd y ddogfennaeth allan er gwybodaeth yn unig a chyda llythyr cysylltiedig yn nodi mai'r pris gofyn oedd £4.25 miliwn bryd hynny.

Gwnaethom hefyd godi pryderon ynghylch addasrwydd prydlesu Fferm Gilestone fel safle i gwmni gwyliau masnachol a'r effaith amgylcheddol posibl. Er enghraifft, mae'n hysbys bod safle Fferm Gilestone yn gartref i fywyd gwyllt sy'n cael ei warchod fel ystlumod a gylfinirod, yn agos at Ardal Cadwraeth Arbennig a deallir nad oes mynediad addas iddo. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gwnaethom gyfeirio at bryderon ynghylch lefel ymgysylltu a'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn. Dywedodd wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o archwiliadau manwl, drwy'r broses diwydrwydd dyladwy ar y cynllun busnes manwl a gyflwynwyd gan y Dyn Gwyrdd, a bydd hynny'n golygu ystyried ffactorau amgylcheddol. Allech chi roi rhagor o fanylion am y broses hon, gan gynnwys pwy fyddwch chi'n ymgynghori â hwy, pryd a sut.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei phrosesau diwydrwydd dyladwy safonol ar yr eiddo cyn prynu. Mae rhagor o ddiwydrwydd dyladwy cadarn yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â chynllun busnes llawn y Dyn Gwyrdd a bydd yn cynnwys asesiad o unrhyw gyfyngiadau posibl ar y gweithgareddau y gallai y Dyn Gwyrdd ddymuno ymgymryd â hwy ar y safle, o ran ystyriaethau amgylcheddol ac eraill.

Ar ôl i'r cynllun busnes gael ei werthuso a'r broses diwydrwydd dyladwy gael ei gwblhau, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid bwrw ymlaen i'r cam nesaf gyda'r Dyn Gwyrdd. Os cymerir penderfyniad mewn egwyddor i fwrw ymlaen, rydym yn bwriadu ymgynghori â nifer o gyrff rheoleiddio statudol a chynnig cyfle i'r gymuned leol roi sylwadau ar y cynigion cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud. Os bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud i beidio â bwrw ymlaen, bydd rhagor o opsiynau yn cael eu hystyried ar gyfer yr eiddo, gan gynnwys ei roi ar y farchnad agored.


Gallai ymgynghoriadau yn y dyfodol ynghylch defnyddio'r safle gan y Dyn Gwyrdd gynnwys yr awdurdod lleol, cyngor cymuned, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (fel yr awdurdod cynllunio perthnasol) a rhanddeiliaid eraill sy'n berthnasol i'r gweithgareddau a gynigir o fewn y cynllun busnes.

O ran bywyd gwyllt, cyfarfu swyddogion â'r perchennog blaenorol ym mis Awst 2022 ac fe gadarnhaodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth hanesyddol o gylfinirod ar y safle.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth uchod yn rhoi'r eglurder y mae'r Pwyllgor yn ei geisio, ond rhowch wybod i mi os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.  Byddwn, wrth gwrs, yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau perthnasol ac wrth i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ar ddyfodol y safle.

Gyda phob dymuniau da.

Yn gywir



**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad